# Cyngor Caerdydd

**Parc Bute**
**Cynllun Rhoddion Sedd**
**2024/25**

# Telerau ac Amodau

**CYFLWYNIAD**
Mae Parc Bute yn falch o ystyried ceisiadau am seddi a roddwyd gan aelodau'r cyhoedd i'w gosod.

Bydd arddull y sedd yn dibynnu ar fath y dodrefn presennol yn y safle a ddewiswch neu yn ôl cyfarwyddyd Parciau Cyngor Caerdydd ac Awdurdod yr Harbwr fel arall. Bydd y rhodd yn para am gyfnod o **ddeng mlynedd** o'r dyddiad gosod, sef oes amcangyfrifedig y sedd. Cewch chi ychwanegu eich neges bersonol i'r sedd, wedi'i hatodi ar blac. Tua diwedd y cyfnod rhoddi, gall rhoddwyr ail-roddi sedd newydd yn yr un lleoliad (os bydd angen) a chael y plac wedi'i drosglwyddo, neu caiff y plac ei ddychwelyd a chaiff y lleoliad ei gynnig fel cyfle i ddarpar roddwyr newydd.

Mae cost y seddau yn cynnwys:
- Cyflenwi a danfon
- Gosod
- Plac (dewisol)
- Cynnal a chadw

Rhoddir gwybod am leoliadau sydd ar gael a phrisiau amcangyfrifedig gan dîm Parc Bute. Cynigir lleoliadau ar sail y cyntaf i'r felin a gellir nodi eich dewisiadau ar y ffurflen gais.

Bydd safle'r sedd yn dibynnu ar y lleoedd sydd ar gael a chaiff ei osod naill ai ar sail concrit, slabiau neu ar arwyneb llwybr presennol. Os bydd y sedd mewn ardal o goetir caiff ei sadio gan angorau pridd.

**Placiau ac Engrafiadau**
Gellir gosod placiau ar bob math o seddau ac maent ar gael mewn pres neu ddur gloyw (sylwer fod placiau pres yn pylu gydag oedran).

Bydd yr ysgrif ar y plac mewn Prif Lythrennau yn unig.

Gellir prynu placiau ychwanegol a'u hychwanegu at sedd sydd gan gwsmer presennol **YN UNIG**.

Bydd angen i'r plac gyfateb i faint a math y plac(iau) presennol a'i osod ar hyd dellten uchaf y sedd; caniateir hyd at dri phlac ar bob sedd.

**Gwybodaeth Ychwanegol**
Rhoddir copi o'r cytundeb â dyddiad i'r rhoddwyr ynghyd â chynllun sy'n dangos amcan leoliad y sedd.

Cynhwysir y costau i osod a chynnal a chadw yn ystod cyfnod y rhodd yng nghyfanswm y rhodd a Pharciau Cyngor Caerdydd ac Awdurdod yr Harbwr fydd yn gwneud y gwaith gosod a chynnal a chadw.

Wrth dderbyn y cais cyflawn bydd Tîm Parc Bute yn cadarnhau argaeledd y lleoliad arfaethedig a chadarnheir y gost derfynol.

Caiff y Polisi hwn ei adolygu'n flynyddol.

Mae Parc Bute hefyd yn cynnig cynllun rhoddi coed, mae prisiau yn dechrau ar £330. Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am y cynllun hwn, cysylltwch â parcbute@caerdydd.gov.uk

**Cefnogi Parc Bute - Bute park (bute-park.com)**

## TELERAU AC AMODAU

1. Nid yw Parciau Cyngor Caerdydd nac Awdurdod yr Harbwr dan unrhyw rwymedigaeth i dderbyn cais am rodd sedd.

2. Ni roddir unrhyw hawliau na manteision perchennog yn sgil y ffaith bod Parciau Cyngor Caerdydd ac Awdurdod yr Harbwr yn derbyn y cais hwn.

3. Ceidw Parciau Cyngor Caerdydd ac Awdurdod yr Harbwr yr hawl i wrthod arysgrif ar blac.

4. Gall y broses ymgeisio gymryd hyd at bedair wythnos ar ddeg o dderbyn taliad hyd at y gosod. Rhoddir gwybod i gwsmeriaid am unrhyw oedi sydd y tu hwnt i reolaeth Parciau Cyngor Caerdydd ac Awdurdod yr Harbwr.

5. Nid yw Parciau Cyngor Caerdydd ac Awdurdod yr Harbwr yn caniatáu gwasgariad na chladdedigaeth gweddillion o amgylch sedd nac yn yr ardal o amgylch y sedd a roddir.

6. Ni cheir gosod blodau, addurniadau na chofebau ar, neu ynghlwm wrth y sedd nac yn yr ardal o'i hamgylch. Os rhoddir blodau, addurniadau neu gofebau ar neu ynghlwm wrth y sedd neu yn yr ardal o'i hamgylch, cânt eu tynnu a'u taflu heb roi rhybudd i'r rhoddwr.

7. Bydd y sedd rhodd yn aros yn ei lle am **ddeng mlynedd** wedi'r dyddiad gosod. Caiff y dyddiad gosod ei gofnodi ar y cytundeb a roddir i'r rhoddwr ynghyd â map o amcan leoliad y sedd.

8. Nid yw Parciau Cyngor Caerdydd ac Awdurdod yr Harbwr yn gyfrifol am ddifrod a achosir, boed hwnnw'n faleisus, yn lladrad, force majeure neu ddifrod oherwydd traul dros amser. Yn anffodus, nid yw Parciau Cyngor Caerdydd ac Awdurdod yr Harbwr mewn sefyllfa i ariannu sedd newydd yn lle unrhyw rodd sedd a gall ddiddymu a gwaredu unrhyw sedd mewn sefyllfa fel hyn yn ôl ei ddisgresiwn ei hun.

## COSTAU

9. **Amcangyfrif o'r costau am un sedd a roddir (gan gynnwys cyflenwi, dosbarthu, gosod a chynnal a chadw dros 10 mlynedd)**

| | |
|---|---|
| Sedd mewn bae presennol | **hyd at £1,500.00** |
| Sedd mewn bae newydd | **hyd at £2,100.00** |
| Sedd mewn ardal coetir heb fae | **hyd at £1,000.00** |
| Plac | **£140.00 (pres)**<br>**£175.00 (dur)** |

10. Nid yw TAW yn berthnasol

11. Gall y gost fesul sedd newid oherwydd newid ym mhrisiau'r cyflenwr a/neu'r contractwr.

12. Mae'r gost yn cynnwys cyflenwi a gosod y sedd a roddir, cyflenwi a gosod y placiau a roddir a hyd at un triniaeth arwyneb (glanhau'n ddwfn/ paentio / staenio / trin pren fel sy'n briodol) dros gyfnod rhoddi o 10 mlynedd.

13. Caiff cost y cyflenwi, gosod a chynnal a chadw'r sedd eu hadolygu'n flynyddol a bydd y newidiadau'n dod i rym o 1 Ebrill a byddant yn berthnasol tan 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol.

## LLEOLIAD Y SEDD

14. Mae cynllun rhoddi seddi Bute Park yn berthnasol i roddi seddi ym Mharc Bute yn unig ac mae'n amodol ar argaeledd. Mae Parciau Cyngor Caerdydd ac Awdurdod yr Harbwr yn cynnig lleoliadau eraill trwy gynllun tebyg. Os oes gennych ddiddordeb mewn man mewn parc arall yng Nghaerdydd, cysylltwch â parciau@caerdydd.gov.uk

15. Os yw'n briodol, gosodir y seddau mewn mannau sy'n caniatáu gosod cadeiriau olwyn / bygis ayyb. wrth eu hochrau, felly ni osodir y sedd yng nghanol y mannau seddau.

**PLACIAU**

16. Gellir prynu plac dewisol gyda'ch sedd. Mae'r rhain ar gael mewn pres (£140 gan gynnwys ffitiadau) neu ddur (£175 gan gynnwys ffitiadau). Caiff yr holl ysgrif a neddir ar y plac 1.5mm trwch ei baentio yn ddu ac mewn ffont Arial ; rhoddir y llythrennau yn eu lle ac ar uchder priodol i weddu i faint y plac.

17. Caniateir uchafswm o dri phlac ar gyfer pob sedd a roddir a chânt eu gosod ar hyd y ddellten uchaf yn unig, o'r canol. Caiff pob plac ei osod gan ddefnyddio pedair sgriw, un ym mhob cornel y plac. Pan osodir y plac ar sedd metel, caiff ei osod gan ddefnyddio pedwar rhybed, un ym mhob cornel y plac.

18. Gellir prynu plac ychwanegol a'i osod ar sedd bresennol y mae'r cwsmer eisoes wedi ei rhoddi. Fel arfer bydd y broses ar gyfer cyflenwi a gosod plac i ddisodli neu blac ychwanegol yn cymryd hyd at chwe wythnos wedi derbyn y tâl.

19. Ni ellir prynu placiau fesul un er mwyn eu gosod ar seddau presennol nad ydynt yn rhoddion gan yr ymgeisydd.

20. Ni fydd gosod plac ychwanegol ar sedd yn effeithio ar dymor deng mlynedd y rhodd. Bydd y dyddiad adnewyddu'n aros fel y nodwyd yn y cytundeb gwreiddiol.

21. Os caiff y plac ei fandaleiddio neu ei ddwyn, cyfrifoldeb y rhoddwr fydd talu am un arall.

**ÔL-OFAL**

22. Cyfrifoldeb rhoddwr y sedd fydd glanhau'r plac.

23. Ni ddylai'r rhoddwr wneud unrhyw waith cynnal a chadw ar y sedd o unrhyw fath, na'i deulu na'u cynrychiolwyr ac eithrio glanhau'r plac.

24. Bydd Parciau Cyngor Caerdydd ac Awdurdod yr Harbwr yn gwneud hyd at un triniaeth ar y sedd a roddwyd (naill ai glanhau'n drylwyr/ ei phaentio / ei staenio / trin y pren fel sy'n briodol) dros y degawd er mwyn cynnal y cyflwr.

**TYMOR Y RHODD**

25. Cynghorir cwsmeriaid presennol i roi gwybod i Adran Parciau Cyngor Caerdydd ac Awdurdod yr Harbwr (tîm rheoli Parc Bute) am unrhyw newid yn eu manylion cyswllt yn ystod tymor y rhodd.

26. Yn ystod nawfed flwyddyn y rhodd, bydd Parciau Cyngor Caerdydd ac Awdurdod yr Harbwr (Tîm Rheoli Parc Bute) yn cysylltu â'r rhoddwr gydag opsiynau i naill ai adnewyddu'r rhodd am ddegawd arall (gyda sedd newydd yn ei lle) neu ddychwelyd y plac i'r rhoddwr. Bydd Parciau Cyngor Caerdydd ac Awdurdod yr Harbwr (Tîm Rheoli Parc Bute) yn cysylltu â rhoddwyr o dan yr amgylchiadau canlynol:
    - Yn ystod nawfed flwyddyn y rhodd er mwyn cynllunio adnewyddu
    - Ar ôl i sedd fethu oherwydd traul arferol (gall hyn fod o fewn 10 mlynedd ac mae'n risg y mae'n rhaid i bob rhoddwr sedd ei dderbyn)
    - Ar ôl i sedd gael eu difrodi y tu hwnt i'w hatgyweirio gan fandaliaeth (gall hyn fod o fewn 10 mlynedd ac mae'n risg y mae'n rhaid i bob rhoddwr sedd ei dderbyn)
    - Ar ôl diwedd tymor y rhodd

    Os nad oes modd cysylltu â'r rhoddwr neu os nad yw'n ateb o fewn **deufis,** bydd Adran Parciau Cyngor Caerdydd ac Awdurdod yr Harbwr yn ystyried bod y cytundeb wedi dod i ben ac yn rhoi lleoliad y sedd ar gael i roddwr arall. Caiff placiau eu dychwelyd trwy'r post i'r cyfeiriad a gedwir ar ffeil.

28. Os cynhelir gwaith adnewyddu mawr, mae'n bosibl y bydd angen tynnu ac ailosod yr holl seddau, gan gynnwys y rhai a roddwyd. Mae hyn yn annhebygol o fod yn broblem ym Mharc Bute yn y dyfodol rhagweladwy oherwydd project adnewyddu mawr yn 2010. Fodd bynnag, yn y sefyllfa hon, bydd gofyn i'r rhoddwr dderbyn un o'r opsiynau canlynol:

- **Opsiwn 1** – Trosglwyddo'r sedd rodd, gan gynnwys y plac i ardal arall yn yr un parc os gellir gwneud hyn yn yr un cynllun. (Ni fydd costau yn berthnasol i'r opsiwn hwn ond bydd tymor y rhodd yn aros fel tymor y rhodd wreiddiol).

- **Opsiwn 2 –** Trosglwyddo'r plac i sedd newydd a osodir yn rhan o'r gwaith adnewyddu. Yn y sefyllfa hon, gwaredir y sedd wreiddiol neu ei defnyddio i gyflenwi stoc parciau mewn lleoedd eraill yn y Ddinas. Bydd yr opsiwn hwn yn gofyn i'r rhoddwr dalu ffi ail-roddi, a gaiff ei chyfrifo fel a ganlyn:

    - Cost disodli yn gyfan gwbl pro-rata i nifer y blynyddoedd sy'n weddill ar y rhodd. E.e. os bydd 5 mlynedd yn weddill [cost disodli'n gyfan gwbl/10 x 5] (bydd tymor y rhodd yn parhau yn ôl y rhodd wreiddiol).

- **Opsiwn 3** – Trosglwyddo'r sedd rodd i barc arall cyn belled ag y bydd yn bodloni'r gofynion a amlinellir yn y polisi hwn. (Ni fydd costau yn berthnasol i'r opsiwn hwn ond bydd tymor y rhodd yn aros fel tymor y rhodd wreiddiol).

Os ydych yn dymuno prynu/rhoddi sedd/plac, cwblhewch y ffurflen a chynnwys y manylion,

- Lle rydych am i'r sedd fod
- Manylion arysgrif y plac
- Y sedd lle rhoddir plac ychwanegol (lle y bo'n berthnasol)

A dychwelwch y ffurflen wedi ei chwblhau a'i llofnodi i:

**E-bost:**
parcbute@caerdydd.gov.uk

**Post:**
At sylw Tîm Rheoli Parc Bute
Gwasanaeth Parciau Caerdydd
Tŷ'r Frenhines Alexandra
Cargo Road
CAERDYDD
CF10 4LY

**Byddwch yn cael anfoneb pan fydd y safle a'r lleoliad o ddewis wedi'u cadarnhau.**
**Caiff manylion y taliad eu nodi ar yr anfoneb**
**PEIDIWCH AG ANFON SIEC GYDA'R FFURFLEN HON.**

**DIOGELU DATA**
Bydd y wybodaeth rydych yn ei rhoi yn ystod y broses hon yn cael ei phrosesu gan Gyngor Caerdydd yn unol â Deddf Diogelu Data 2018. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol ond gellir ei defnyddio gan y Cyngor neu ei datgelu i eraill pan fo'n ofynnol gwneud hynny dan y gyfraith.

Am ragor o wybodaeth am sut mae Cyngor Caerdydd yn rheoli gwybodaeth bersonol, darllenwch ein Polisi Preifatrwydd ar wefan y Cyngor.
https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Hafan/Ymwadiad/Pages/default.aspx_
Fel arall cysylltwch yn ysgrifenedig: Y Swyddog Diogelu Data, Llywodraethu Gwybodaeth, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW neu e-bostiwch diogeludata@caerdydd.gov.uk

Yn yr achos hwn, byddwn yn prosesu eich gwybodaeth yn benodol ar gyfer gweinyddu'r cynllun seddi rhodd fel y disgrifir yn y ddogfen hon. Fodd bynnag, os **nad** ydych yn dymuno rhoi eich cydsyniad i'r Cyngor sy'n cadw ac yn prosesu eich gwybodaeth cewch dynnu allan, ond ni fyddem yn gallu cysylltu â chi pe bai angen adnewyddu eich sedd am unrhyw reswm o fewn y cyfnod rhoddi.